

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales

20 Ebrill 2022

### **YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU AR Y CYD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI: 'ADRODDIAD AROLYGU THEMATIG AR Y CYD AR YMATEB YR HEDDLU A GWASANAETH ERLYN Y GORON I DREISIO – CAM 2: AR ÔL Y CYHUDDIAD' (Saesneg yn unig)**

Mewn sawl ffordd, mae'r adroddiad hwn, ac adroddiad cam 1 a gyhoeddwyd y llynedd, yn cynnwys gwybodaeth annymunol iawn. Mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau bod dioddefwyr achosion o dreisio yn cael y gwasanaeth a'r cyfiawnder y maent yn eu haeddu gan y system cyfiawnder troseddol, ond mae llawer o heriau i'w hwynebu o hyd wrth gyflawni hyn.

Mae'r data cenedlaethol yn yr adroddiad ar nifer yr achosion o dreisio y rhoddwyd gwybod amdanynt ac a arweiniodd at erlyniadau llwyddiannus yn creu darlun siomedig iawn, ac rwy'n siŵr y bydd dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn teimlo nad yw hyn yn ddigon da. Rwy'n cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad, ar gyfer gwasanaeth yr heddlu a'n partneriaid cyfiawnder troseddol. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir bod gan bob un ohonynt ran i'w chwarae wrth wella cyfraddau erlyniadau a ollyngir mewn perthynas ag achosion o dreisio yn y system cyfiawnder troseddol a sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses.

Nodaf fod y ddau adroddiad yn cyfeirio at broblemau cyfathrebu rhwng partneriaid a gyda dioddefwyr, problemau o ran gofal dioddefwyr, a materion sy'n ymwneud â data a llwythi gwaith swyddogion. Byddaf yn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu goruchwyllo yn Heddlu De Cymru ac yn gofyn am ddiweddariadau ar gynnydd drwy fy rhaglen graffu.

Nodaf fod yr argymhelliad cyntaf yn yr adroddiad yn ymwneud â'r heddlu ac erlynwyr yn adolygu'r ffordd yr eir ati i gyfathrebu â dioddefwyr ac yn ei gwella. Mae'n cyfeirio at yr adeg y caiff rhywun ei gyhuddo ac wedi hynny, ac mae angen iddo gynnwys prosesau adolygu ar y cyd â gwasanaethau a gomisiynir a gwasanaethau nas comisiynir. Fel comisiynydd gwasanaethau gofal dioddefwyr yn ardal yr heddlu, byddaf yn awyddus i sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith a bod llais dioddefwyr yn cael ei ystyried drwy'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynir gennym.

Rwy'n cydnabod bod cam cyntaf yr arolygiad hwn wedi pwysleisio'r angen i wella'r ffordd yr eir ati i gyfathrebu â dioddefwyr pan na chymerir unrhyw gamau pellach, ac

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales

mae hwn yn fater yr wyf wedi'i godi eisoes gyda fy heddlu drwy adolygiadau craffu sy'n ymwneud â dioddefwyr troseddau agored i niwed. Byddaf yn parhau i ddwyn yr heddlu i gyfrif ar y mater hwn ac yn gofyn am adborth gan ddiodefwyr ar y cynnydd a wneir.

Rwyf hefyd yn nodi ac yn cefnogi'r cyfeiriadau a wneir yn yr adroddiad hwn at bwysigrwydd y Datganiad Effaith ar Ddiodefwyr a'r angen i wella'r broses gydweithio er mwyn sicrhau bod 'cymeriad drwg' yn cael ei ystyried ym mhob achos o dreisio.

Mae'r ffaith bod Heddlu De Cymru yn heddlu peilot ar gyfer Ymgyrch Soteria yn gyfle a fydd, gobeithio, yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddiodefwyr yn ardal ein heddlu, ynghyd â gwersi y gellir eu rhannu'n ehangach.

Mae'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i weithio tuag at newid cadarnhaol o ran y gwasanaeth a ddarperir i ddiodefwyr achosion o dreisio ac mae wedi gwneud y sylwadau canlynol ar yr adroddiad:

*'Mae'r heddlu yn gwbl ymrwymedig i wella profiad diodefwyr a goroeswyr yng Nghymru mewn ffordd radical a chyflym. Mae Heddlu De Cymru yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad a bydd yn parhau i weithio'n ddiflino gydag asiantaethau eraill er mwyn helpu i sicrhau bod gan ein cymunedau system cyfiawnder troseddol sy'n deall trawma ac sy'n rhoi cefnogaeth eang a llais i ddiodefwyr a goroeswyr. Croesewir y craffu a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, a fydd yn gwella ein cynlluniau i ddeall ble a sut y gallwn wneud gwelliannau.*

*Mae De Cymru mewn sefyllfa freintiedig o fod yn heddlu peilot ar gyfer Ymgyrch Soteria, dull trawsnewidiol o ymchwilio i achosion o dreisio sy'n rhoi mwy o ffocws ar y rhai sy'n cyflawni'r drosedd erchyll hon. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgir â heddluoedd eraill Cymru er mwyn helpu i hwyluso gwelliannau ledled Cymru. Fel Heddlu, rydym yn cydnabod bod angen i ni addasu i heriau newydd a byddwn yn sicrhau ein bod yn mynd ati'n ddiflino i roi'r argymhellion ar waith a'u defnyddio i ddatblygu ein dull gweithredu. Mae'r heddlu yn parhau i fod yn gwbl ymroddedig i ddarparu gwasanaeth plismona o ansawdd a gofal o safon uchel i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn Ne Cymru, yn ogystal ag ymwelwyr, a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar amddiffyn a chefnogi diodefwyr, gan weithio'n ddiflino i ennyn hyder.*

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

## **Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA**

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales

Rwy'n ymrwymedig i oruchwylio'r cynnydd y bydd Heddlu De Cymru yn ei wneud yn y maes hwn, ac rwy'n ddiolchgar am ganfyddiadau'r adroddiad hwn sy'n dangos bod hwn yn fater i'r system cyfiawnder troseddol gyfan, nid dim ond plismona.

**Y Gwir Anrh Alun Michael**  
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English